

❖ SEINIAU'R NADOLIG

Y byd fel terfysglyd fôr, – a ninnau
Yn wan a diangor;
Uwch ein tynged caned côr
Eto emyn y tymor.

B. T. Hopkins

❖ CYFARCHIAD NADOLIG

Bendithion, rhoddion heb ri' – a hir hwyl
Fo'ch rhan eto 'leni;
Doed llawen wyl y Geni
Eto â chân atoch chwi.

R. E. Jones

❖ CRIST

Er gwynned awr y Geni, – er dued
Fu'r dial a'r cosbi,
Er syndod, atgyfodi,
A'i waed Ef yw 'mywyd i.

W. J. Williams

❖ NADOLIG

Ein dyled pob Nadolig – yw diolch
Yn dawel a diddig
Dan y Seren arbennig,
Addoli Duw heb ddal dig.

Rhian y Ddôl

❖ DATHLU

Nadolig yr holl deulu – dylai pawb
Dalu parch i Iesu
Heddiw, y mae'n ei haeddu,
Teg yw'r cof fod Duw o'n tu.

Gruffydd Owen

❖ IESU'N DOD

I lety na fu ei dlotach – daeth ef
Ar daith hir ddirwgnach,
I boen byd yn faban bach
I gynnig byd amgenach.

Willie Griffith

❖ **LLETY'R CRIST**

Y Mab Iesu ym maw a biswail – yr ych,
Yr Oll mewn hen adfail;
Llyw'r nef yn lle'r anifail,
A Duw yn y domen dail.

Alan Llwyd

❖ **GENI CRIST**

Clyw o Fethlehem emyn – cariad gwyn
Uwch crud gwellt y plentyn;
Eneiniog Dywysog dyn
Yn ei lety yn dlotyn.

S. B. Jones

❖ **AWR Y GENI**

Dyma awr o wir fawredd, – awr y gân,
Awr geni Etifedd;
Awr o fawl a gorfoledd
A saib hir wrth breseb hedd.

Ffynhonfab

❖ **NADOLIG**

Rhoed urddas ar dŷ'r asyn – y dydd hwn,
Duw a ddaeth yn blentyn;
Yma caed cordiau emyn –
Cerddoriaeth brawdoliaeth dyn.

J. H. Roberts

❖ **ER DY FWYN**

Er dy fwyn rhoed Ef ennyd – yn ddyn bach
I ddwyn beichiau bywyd;
Yn ifanc erot hefyd
Rhoed i'r bedd Waredwr byd.

Eirian Davies

❖ **'A HWY A GAWSANT Y DYN BACH...'**

Ni wyddom am ddim rhyfeddach, – Crëwr
Yn crio mewn cadach,
Yn Faban heb ei wannach,
Duw yn y byd fel Dyn Bach.

Eirian Davies

❖ SEREN

Yn dyner arweiniodd seren – y byd
i'r beudy, ond hoelen
ein dathlu yw naddu'r nen
a'i gadael ar y goeden.

Huw Edwards

❖ NADOLIG

Heddiw boed holl liwiau'r goeden yn fyw
am fod yr Un seren
yn Frenin Nef fry'n y nen
yn gloywi uwch Gŵyl lawen.

Tudur Dylan Jones

❖ OEDFA'R ADFENT

Awr oedi am Waredwr – yw Oedfa
Yr Adfent i'r Credwr;
Awr i ti fod ar y tŵr
Ar ddeulin yr addolwr.

❖ Y GOLEUNI SY'N LLWEYRCHU YN Y TYWYLLWCH

O brysiwn tua'r preseb – i weled
Gwir olau gwarineb;
Er y nos, mae'n wawr i'r neb
A ildia'i hunanoldeb.

❖ Y NADOLIG

Nid elw yw'r Nadolig – nid trimins,
Nid tramwy sychedig,
Nid blys coeg, nid blas y cig
Ond Gŵyl y Duw gweledig.

D. Gerald Jones